Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 27 Ionawr 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, G. C. Jones, A. Mummery, H. Huws, D. Williams, A. Thomas, E. Parry, J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc) Anwen Le Cras (Swyddog Cyllid),

1. Ymddiheuriadau: A. Williams, P. Roberts, B. Jones, Mervyn Jones, Meirion Jones, G. Parry,

2. Datganiadau Diddordeb. Mi ddatganwyd diddordeb gan Dafydd Owen yn eitem 5 ar yr agenda.

3. Ymweliad gan Arweinydd y Cyngor Sir
3.1 Fe ymwelodd y Cynghorwr Ieuan Williams gyda Cyngor Bro Llanfairpwll I drafod Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2015/16. Nodwyd y her sydd yn wynebu Cynghorau gan fod arian I'r Sector Cyhoeddus a rei leiaf fel canran o'r GDP ers y tri-degau.
3.2 Cadarnhawyd mai diogelu llyfrgelloedd, ysgolion ac canolfannau hamdden fydd yn cael blaenoriaeth am 2015.
3.3 Mae y ddogfen 'Cwrdd a'r Heriau' wedi ei baratoi ynghyd a'r ymgynghoriad ar y Gyllideb, gyda dyddiad cau y ymgynghoriad ar 23 Ionawr 2015. Ehangwyd y Cynghorwr Williams ar y arbedion arfaethedig sydd wedi eu nodi yn y ddogfen.
3.4 Diolchodd A. Mummery I Mr Williams ar ran y Cyngor Bro am ddod I drafod, a hefyd diolchwyd am ei gefnogaeth gyda'r ymgyrch gwrth-beilonau.

4. Cyfrifon mis Ionawr 2015
4.1 Cyfrifon Cyngor Bro – J. Roberts yn cynnig, A. Mummery yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir
4.2 Cyfrifon y Fynwent - J. Roberts yn cynnig, D. Williams yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir
4.3 Cyfrifon y Neuadd Goffa- A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

5. Ymddiswyddiad Anwen Le Cras
5.1 Derbyniwyd llythyr gan Anwen Le Cras yn hysbysu o'i bwriad I ymddiswyddo o'r swydd fel swyddog Cyllid I'r Cyngor Bro. Cadarnhawyd ei bod yn hapus I gario ymlaen fel gofalwr y Neuadd Goffa yn wirfoddol ar hyn o bryd.
5.2 Diolchodd A. Mummery ar ran y Cyngor Bro am y gwaith y mai wedi ei wneud dros y blynyddoedd.
5.3 Nodwyd fod Dafydd Owen (*Y Clerc*) wedi gadael yr ystafell cyn trafod. Ar ôl trafodaeth tra r'oedd y clerc wedi ymadael yr ystafell, penderfynwyd i gynnig y ddwy swydd I'r clerc presennol. Hynny am gyfnod amodol o 6 (chwech) mis I'w gadarnhau gan y ddwy ochr. Nodwyd fod D. Owen yn dod yn ôl i fewn I'r ystafell ar ôl I'r pwynt gael ei drafod.

6. Materion y Cyngor Sir
6.1 Ty Mawr – Nodwyd fod gwaith wedi cymryd lle I glirio y safle. A. Mummery am wneud ymholiadau

7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 16 Rhagfyr 2014
7.1 Nodwyd cywiriadau I cofnod 6.7 a 6.9
7.2 Wedi cywiriadau J. Roberts yn cynnig, D. Williams yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir.

8. Materion yn codi
8.1 Ymgyrch codi arian – A. Mummery yn diolch I bawb a fynychwyd y cyfarfod ac I G. C. Jones am ei waith cefndirol.
8.2 CCTV – A. Mummery am wahodd Guy Blackwell I n o gyfarfodydd y Cyngor Bro am drafodaeth am y mater.
8.3 Twr Marcwis – Meirion Jones am drafod y mater gyda asiant Jones Peckover a edrych I gael cyfarfod.
8.4 Plac ar dy Kyffin Williams – A. Mummery wedi trafod gyda Pat West ac am wneud ymholiadau pellach.
8.5 Coed y Fynwent – G. Parry yn cadarnhau fod un coeden wrth y on wedi ei weithredu, ond dim llawer arall I'w weld wedi cael sylw.
8.6 Gwely blodau – A. Mummery wedi trafod gyda Medwyn Williams, ddim yn siŵr pa gam I gymryd nesaf gan fyddai arolwg pridd yn costio gormod

8.7 Bin tu allan I'r Neuadd Goffa – Clerc I bwyso ar Adran Rheoli Gwastraff I symud y bin I'r parc **75**

8.8 Paentio y Neuadd Goffa – Clerc I ofyn I Emlyn Parry I weithredu
8.9 Addurniadau Nadolig – J. Roberts yn nodi ei fod yn cytuno gyda'r penderfyniad i'r Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo yn gwneud y trefniadau. Nodwyd hefyd ei bryder y dylai aelodau sydd ddim ar y pwyllgor hwnnw gael ei cynnwys yn y trefniadau.
8.10 Beinciau – Fainc newydd wedi ei archebu.

9. Cyflwyno a cadarnhau cofnodion Cyllid 20 Ionawr 2015
9.1 A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

10. Materion yn codi
10.1 Maes parcio y Gors - Dau bris wedi ei dderbyn, disgwyl am ymateb gan Hogans a R. G. Hire. Clerc I gysylltu gyda nhw
10.2 A. Mummery yn nodi fod y Cyngor Bro heb dderbyn arian gan y Cyngor Sir am y sgips yn y maes parcio. Clerc I ddilyn I fyny.

11. Ceisiadau Cynllunio
11.1 31C21D – Cais llawn I ddymchwel modurdy presennol ynghyd a codi 2 annedd newydd yn ei le ar dir tu ôl I Plas Mona, Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll – Dim sylw

12. Gohebiaeth
12.1 Cyngor Sir Ynys Môn – Penderfyniadau Cynllunio – Dim sylw
12.2 Cyngor Gwynedd – Cynllun Adnau (Crynodeb Gweithredol) – I'w drafod yng nghyfarfod Mis Chwefror
12.3 Bwrdd Iechyd – Llythyr Chris Wilcock – Clerc I yrru ymateb yn cadarnhau fod y Cyngor Bro yn fodlon mewn egwyddor ar gytundeb I adael y Bwrdd Iechyd ddefnyddio maes parcio y neuadd yn amodol ar gael cyfarfod gyda Linda West ar y safle.
12.4 Cyngor Sir Ynys Môn – Cynnig gostwng oed mynediad Ysgol Llanfairpwll – A. Mummery wedi rhoi ymateb dros y Cyngor Bro. Cadarnhau bod dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Bro.
12.5 National Grid – Llyfryn gwybodaeth – H. Huws yn nodi dylid edrych I ymgynghori gyda Cynghorau a Ardaloedd eraill am gefnogaeth.
12.6 Cyngor Sir Ynys Môn – Diddymiad cais Cynllunio 41C66E – Dim sylw

13. Unrhyw fater arall
13.1 A. Mummery yn nodi fod Cyngor Tref Beaumaris yn pryderu fod y Ganolfan Wybodaeth Twristiaeth am gau.
13.2 Derbyniwyd llythyr gan Phil Roberts yn cadarnhau ei fod yn sefyll I lawr fel Cynghorwr Cymuned. Clerc I ymateb yn ffurfiol ac yn hysbysu y Cyngor Sir am y sedd wag ar y Cyngor Bro.
13.3 H. Huws yn nodi pryder am y llwybr beicio wrth Pant Lodge. A. Jones yn nodi mai Systrans sydd yn gyfrifol amdano.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 24 Chwefror 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd …… (Cadeirydd) ……Dyddiad **76**